

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A487
(Penmorfa i Fryncir, Gwynedd)
(Gwaharddiadau Traffig a Therfyn
Cyflymder 30 mya Dros Dro)
2018

A487 Trunk Road (Penmorfa to
Bryncir, Gwynedd) (Temporary
Traffic Prohibitions and 30 mph
Speed Limit) Order 2018

Gwnaed 24 Awst 2018

Made 24 August 2018

Yn dod i rym 3 Medi 2018

Coming into force 3 September 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd sy'n teithio.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A487 Fishguard to Bangor Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be restricted and/or prohibited because of the likelihood of danger to the travelling public.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Penmorfa i Fryncir, Gwynedd) (Gwaharddiadau Traffig a Therfyn Cyflymder 30 mya Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 3 Medi 2018.

1. The title of this Order is the A487 Trunk Road (Penmorfa to Bryncir, Gwynedd) (Temporary Traffic Prohibitions and 30 mph Speed Limit) Order 2018 and it comes into force on 3 September 2018.

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

- (a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2) neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;
- (b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y cyfyngiad” (“*restriction period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 00:01 o’r gloch ar 3 Medi 2018 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor yn Sir Gwynedd sy’n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd sirol o’r enw Lôn Ymwlech i ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd sirol sy’n arwain i Gwm Ystradllyn a Golan;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

2. In this Order:

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

- (a) any vehicle being used by the emergency services for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2) or in connection with the works giving rise to this Order;
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A487 Fishguard to Bangor Trunk Road in the County of Gwynedd that extends from the centrepiece of the junction with the county road known as Lon Ymwlech to the centrepiece of the junction with the county road to Cwm Ystradllyn and Golan.

“restriction period” (“*cyfnod y cyfyngiad*”) means intermittent periods commencing at 00:01 hours on 3 September 2018 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

Gwaharddiadau a Chyfyngiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cyfyngiad, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu gyda chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, caniatáu i unrhyw gerbyd stopio, ar ymylon y darn o'r gefnffordd.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cyfyngiad, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cyfyngiad, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd.

Atal Dros Dro

6. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn perthnasol o'r gefnffordd wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

Cymhwys

7. (1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 1 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

24 Awst 2018

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

Prohibitions and Restriction

3. No person may, during the restriction period, permit any vehicle to stop on the sides of the length of the trunk road, except on the direction or with the permission of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer.

4. No person may, during the restriction period, drive or cause or permit any vehicle to proceed at a speed exceeding 30 miles per hour on the length of the trunk road.

5. No person may, during the restriction period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle in the length of the trunk road.

Suspension

6. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the relevant length of the trunk road are suspended during such times as the restriction specified in article 4 is in operation.

Application

7. (1) The prohibitions and restrictions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

Duration of this Order

8. The maximum duration for this Order is 1 month.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated

24 August 2018

Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487
(PENMORFA I FRYNCIR, GWYNEDD)
(GWAHARDDIADAU TRAFFIG A THERFYN
CYFLYMDER 30 MYA DROS DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn sicrhau diogelwch defnyddwyr y ffordd a'r rhai sy'n mynd i Wyl 'Rhif 6' ar gefnffordd yr A487, neu gerllaw iddi, rhwng Penmorfa a Bryncir, Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd rhag aros ar y darn o'r gefnffordd, gosod terfyn cyflymder o 30 mya a gwahardd goddiweddwyd ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sirol o'r enw Lôn Ymwelch i ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sirol sy'n arwain i Gwm Ystradllyn a Golan.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 00:01 o'r gloch ar 3 Medi 2018 ac yn parhau tan 23:59 o'r gloch ar 14 Medi 2018 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys, fel mesur wrth gefn, am gyfnod o 1 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchymynion traffig dros dro/ 2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A487 TRUNK ROAD (PENMORFA TO
BRYNCIR, GWYNEDD) (TEMPORARY
TRAFFIC PROHIBITIONS AND 30 MPH
SPEED LIMIT) ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to ensure the safety of road users and those attending the Festival 'No.6' event on or near the A487 trunk road between Penmorfa and Bryncir, Gwynedd.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles from waiting along the length of the trunk road, impose a 30 mph speed limit and prohibit overtaking on the length of the trunk road that extends from the centre point of the junction with the county road known as Lon Ymwelch to the centre point of the junction with the county road to Cwm Ystradllyn and Golan.

It is expected that the temporary prohibitions and restriction, which will be signed accordingly, will come into force at 00:01 hours on 3 September 2018 and remain until 23:59 hours on 14 September 2018 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid as a contingency, for a maximum period of 1 month.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government